IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 9 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Robson a/ac Lancaster |

15 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd gael eu heithrio o gyfarfod drwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wrth drafod yr eitem hon.

PENDERFYNWYD – I wahardd y cyhoedd.

16 : MATERION CERBYD HACNI / LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD – Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Wedi'i ohirio am 1 mis

(2) Cais 2

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gŵyn a dderbyniwyd oddi wrth aelod o'r cyhoedd. Honnwyd, yn ystod taith o Ysbyty'r Mynydd Bychan i ganolfan gofal dydd yn Nhrelái, nad oedd mam oedrannus yr achwynydd, sy'n defnyddio cadair olwyn, yn ddiogel yn y cerbyd yn y lle cywir ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr cerbydau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gadair olwyn yn wynebu'r ochr drwy gydol y daith, a bod y gadair olwyn wedi tipio pan oedd y gyrrwr wedi troi'n rhy gyflym. Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi stopio'r cerbyd a gwirio bod y teithwyr yn iawn. Gwrthododd y tyst y datganiad hwnnw. Gwrthododd yr achwynydd dalu'r pris ar ddiwedd y daith gan ei bod o'r farn nad oedd lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd yn dderbyniol. Honnwyd bod y gyrrwr wedi ymateb yn ddig a chafwyd trafodaeth chwyrn. Roedd trydydd partïon yn dyst i'r ddadl. Dywedodd yr achwynydd fod y digwyddiad yn gwneud iddi deimlo'n bryderus ac yn agored i niwed.

Dywedodd y gyrrwr ei fod yn aml yn gosod cadeiriau olwyn yn y cerbyd mewn man sy'n wynebu'r ochr, oherwydd mae'n well gan lawer o gwsmeriaid hynny. Ers y digwyddiad hwn mae wedi dod â'r arfer hwn i ben. Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, dywedodd y gyrrwr nad oedd yn meddu ar lawlyfr y gwneuthurwyr ar gyfer y cerbyd. Cafodd gyfarwyddyd ar lafar ar sut i osod cadair olwyn gan berchennog blaenorol y cerbyd. Dywedodd yr achwynydd ei bod yn defnyddio cerbydau sy'n

hygyrch i gadeiriau olwyn yn rheolaidd ac nad yw hi erioed wedi gweld y gadair olwyn yn wynebu'r ochr o'r blaen.

PENDERFNYWYD – bod y gyrrwr yn derbyn ataliad am 12 diwrnod am fethu â sicrhau'r gadair olwyn yn ddiogel a'r cyfaddefiad nad yw defnyddwyr cadeiriau olwyn eraill wedi'i gosod yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.  Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd y gyrrwr wedi ymchwilio'n ddigonol i sut i sicrhau cadeiriau olwyn yn ddiogel yn ei gerbyd.

(3) Cais 3

Wedi'i ohirio am 1 mis

(4) Cais 4

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cwyn wedi'i derbyn gan aelod o'r cyhoedd bod gyrrwr wedi gwrthod tocyn.  Honnodd yr achwynydd ei fod wedi mynd at y gyrrwr a darparu'r gyrchfan, ond yna chwarddodd y gyrrwr gan ddweud nad oedd yr achwynydd yn siarad yn ei 'lais go iawn' ac yna gwrthododd y pris gan ddweud 'Dydw i ddim yn mynd â chi i unman'.  Honnodd yr achwynydd hefyd fod y gyrrwr wedi tynnu ei fathodyn adnabod oddi ar y ffenestr flaen.

Dywedodd y gyrrwr fod beth wnaeth yn codi cywilydd arno a'i fod yn dymuno ymddiheuro i'r achwynydd.  Roedd y gyrrwr yn derbyn ei fod wedi gweithredu'n amhroffesiynol ac nad oedd yn bwriadu unrhyw niwed i'r achwynydd.  Dywedodd y gyrrwr ei fod yn meddwl ei fod yn 'cael hwyl' ond fe wnaeth hyn gynyddu ac 'wedi mynd dros ben llestri'.  Derbyniodd yr achwynydd ymddiheuriad y gyrrwr.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod ail gŵyn wedi'i derbyn bod y gyrrwr yn gwrthod ail docyn yr un noson gan wahanol aelod o'r cyhoedd.  Nid oedd yr achwynydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – bod y gyrrwr yn cwblhau'r cwrs BTEC o fewn 3 mis ac yn derbyn ataliad 10 diwrnod am wrthod tocyn, peidio â dangos bathodyn adnabod y gyrrwr ac ymddygiad amhriodol.

(5) Cais 5

Wedi'i ohirio am 1 mis

(6) Cais 6

Cafodd yr Is-bwyllgor gynrychiolaethau gan yrrwr a gafodd 9 pwynt cosb ar ei drwydded yrru DVLA am 3 trosedd gyrru ar wahân – 2 drosedd goryrru ac 1 methiant i stopio wrth olau coch.  Dywedodd y gyrrwr fod y troseddau wedi digwydd pan oedd yn rhuthro i godi teithwyr.  Nid oedd unrhyw deithwyr eraill yn y cerbyd ar y pryd.  Hysbysodd y gyrrwr ei gwmni yswiriant ar adeg y troseddau ond nid oedd yn ymwybodol bod yn rhaid iddo hefyd hysbysu'r Adran Drwyddedu.

PENDERFYNWYD - Gyrrwr i dderbyn rhybudd ysgrifenedig am droseddau gyrru. Atgoffwyd y gyrrwr o'i rwymedigaeth i roi gwybod i'r awdurdod am unrhyw gollfarnau.

(7) Cais 7

Cafodd yr Is-bwyllgor gynrychiolaethau gan yrrwr a gafodd 9 pwynt cosb ar ei drwydded gyrwyr DLVA – 6 pwynt am fethu â chael yswiriant a 3 phwynt am drosedd goryrru. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan y gyrrwr ei drwyddedu ar gyfer llogi preifat yn unig. Gosodwyd y 6 phwynt cosb ar ôl i'r gyrrwr gael ei erlyn am 'fflimpio' – neu gasglu tocyn ar y stryd yn anghyfreithlon pan nad oedd wedi'i drwyddedu i wneud hynny. Cyfaddefodd y gyrrwr y drosedd. Dywedodd ei fod wedi codi dau o fenywod ar City Road ac wedi mynd â nhw i Ffordd Churchill. Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi cymryd trueni ar y teithwyr gan ei bod yn fis Rhagfyr, roedd yn oer a phrin oedd y cymhelliad ariannol, gan mai taith fer ydoedd. Digwyddodd y drosedd goryrru ar Ffordd y Gogledd. Nododd y gyrrwr nad oedd yn datgan yr euogfarnau gan ei fod yn tybio y byddai'r Cyngor yn ymwybodol o'r prif drosedd oherwydd yr erlyniad. Ymrwymodd y caiff unrhyw gollfarnau pellach eu datgan ar unwaith.

PENDERFYNWYD – Na ddylid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

(8) Cais 8

Wedi’i ohirio sine die

(9) Cais 9

Gwrthodwyd cais am drwydded Gyrwyr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm